

## RHOWCH EICH HYDER MEWN BUDDUGOLIAETH DDWYFOL!

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Helpwch eich cynulleidfa i weld ei bod yn bwysig nid yn unig i wybod y gwirionedd ond i fod â llawn hyder yn y neges a gludwn. Mae'r hyn a wnawn â'n bywydau yn dangos a oes gennym wir hyder ai peidio ym muddugoliaeth ddwyfol Jehofah sydd ar ddyfod

### **BETH MAE "BUDDUGOLIAETH DDWYFOL" YN EI OLYGU? (4 mun.)**

'Rydym yn clywed am ryfeloedd a sôn am ryfeloedd, fel rhagfynegodd Iesu (Mth 24:6, 7; *gm* 136-8; *re* 93-5)

Ansicr yn aml yw canlyniad brwydr neu ryfel arbennig

Efallai y bydd pobl ac arweinwyr yn hyderus y cânt fuddugoliaeth ond eu trechu'n syfrdanol yw eu rhan

Pa wir sail hyder sydd gan bobl?

Ym mhob man mae Tystion Jehofah yn pregethu am y rhyfela sydd i ddod rhwng galluoedd Duw a'r rheiny sy'n gwrthwynebu brenhiniaeth ddwyfol

Bydd hyn yn rhan o'r "gorthrymder mawr" (Mth 24:21)

Mae'r Ysgrythurau'n darlunio llwyr fuddugoliaeth i blaid Duw (Dat 6:2; 17:14; 19:11-21)

Fe ddaw hyn i fod, cyn wired â bod 'na Frenin Dwyfol

Mae'r Beibl hefyd yn dweud mai'r canlyniad fydd cael gwared â llywodraethwyr llwgr a masnachwyr ecsbloetgar (Salm 37:10; *g84* 1/22 9)

I lawer canlyniad buddugoliaeth ddwyfol yw distryw, ond beth amdanom ni?

### **'GEWCH CHI FUDD A LLES O FUDDUGOLIAETH DDWYFOL? (6 mun.)**

Pan fo dyn yn fuddugol mewn rhyfel, mae cyfundrefn newydd yn aml cynddrwg os nad yn waeth na'r un a drechwyd

Pan yw Duw yn Fuddugwr, mae budd a lles yn gyflawn

Nid barusrwydd am diriogaeth neu bobl i'w hecsbloetio sy'n ei gymell

Brenin Bydysawdol cariadus yw Jehofah sy'n teilyngu'n haddoliad ni (Dat 4:11)

Bydd buddugoliaeth Duw o fudd a lles i oeswyr y gorthrymder mawr, y rheiny sy'n cefnogi brenhiniaeth ddwyfol (Dat 7:14-17)

'Fyddan' nhw ddim yn teimlo gwres digofaint Duw (*re* 126-7)

Cânt gymeradwyaeth Duw, adnewyddiad llwyr; gallant gyfranogi o'r darpariaethau ar gyfer bywyd tragwyddol

Awgryma'r Beibl fod llawer o fendithion eraill ar gyfer y rhai sy'n profi budd a lles buddugoliaeth ddwyfol (Dat 21:3, 4; *re* 303)

Gallwn elwa 'nawr hyd yn oed (1Tim 4:8; *w78* 10/1 29-30; *w81* 5/1 4-8)

Mwynhau bywyd teuluol gwell oherwydd cymhwyso egwyddorion dwyfol

Cael cymdeithasu'n adeiladol gyda phobl y gellwch ymddiried ynddynt ac a fydd yn barod iawn i'ch helpu

Sicrhau heddwch meddwl a phwrpas mewn bywyd drwy fod â rhan 'nawr yng ngwneud ewyllys Duw (Phil 4: 6, 7)

I ennill y bendithion hyn, rhaid harmonieiddio'n bywyd â safonau Duw a gwneud safiad dros wir addoliad

Dylai gwybod am y fuddugoliaeth ddwyfol sydd ar ddod a phosiblwydd ennill ei bendithion ein hysgogi ni i ddangos yr hyder hwn yn ein ffordd o fyw

### **'YDI'CH HYDER CHI YN CAEL EFFAITH GWIRIONEDDOL AR EICH BYWYD CHI? (9 mun.)**

Hawdd teimlo, '*Rwyf* yn hyderus mewn buddugoliaeth ddwyfol!' Eto, ydi'r hyder hwnnw yn ei wir amlygu ei hun yn eich bywyd?

Gallwn esgus cefnogi rhywbeth ond peidio â chaniatáu iddo effeithio ar ein bywyd

Fe drafodwn ni rai meysydd i'w harchwilio yn bersonol; hefyd ystyriwn y gofal sydd ei angen i sicrhau na erydir ein hyder yn raddol

Mae achos Asa brenin Jwda yn dangos bod yn rhaid gwarchod ein hyder (*it-1* 183-5; *w80* 12/1 28-30)

'Roedd gan Asa sêl dros wir addoliad (2Cron 14:1-8)

Er ymosod arno gan elyn oedd yn llawer mwy niferus na'i fyddin e, 'roedd gan Asa hyder mewn cymorth a llwyddiant dwyfol (2Cron 14:9-11)

Ni chafodd ei siomi (2Cron 14:12, 13)

O'i fygwth yn ddiweddarach gan Baasa brenin Israel, yn annoeth bu i Asa ddibynnu ar resymu dynol neu gyngor drwg, gan ddefnyddio diplomyddiaeth a chynllwynion cyfrwys (2Cron 16:1-3)

Tynnodd Hanani y gweledydd sylw at wanhau hyder Asa a rhagfynegi canlyniadau drwg (2Cron 16:7-9)

Yn ogystal â sicrhau fod ein hyder yn cael effaith gwirioneddol ar ein bywyd, rhaid ei ddiogelu rhag iddo gael ei erydu

## **AMLYGWCH EICH HYDER MEWN BUDDUGOLIAETH DDWYFOL (20 mun.)**

Yn eich bywyd gwnewch yn amlwg eich hyder y daw buddugoliaeth ddwyfol *yn fuan*, er na wyddom ni mo'r union amser

Naturiol yw bod â diddordeb yn y ffactor amser (Mth 24:3; Act 1:6)

Ni roddodd Iesu ddyddiad penodol inni; anogodd ei ganlynwyr i weithredu a bod yn wylidwrus (Mth 24:36-42)

Os byddwn yn gwasanaethu gyda golwg ar ddyddiad, gallwn boeni, 'Beth os na ddigwydd y pryd hwnnw?'

Gall hyn erydu hyder yn raddol nes inni amau a ddaw buddugoliaeth o gwbl

Mae rheswm da gennym i fod yn hyderus fod y diwedd yn agos (Dat 12:12)

O ddeall hyn, 'fydd ein hyder ddim yn gwanhau wrth i ghenhedloedd siarad am heddwch a diogelwch (1Thes 5:3, 4; w87 5/15 17-20)

Gallwn fod yn sicr na fydd Duw yn oedi (Hab 2:3)

'Ydi'r ffordd 'rydych chi'n trefnu'ch bywyd yn amlygu'ch hyder yn hyn?

Wrth fyw bob dydd, 'ydi'ch gweithgareddau yn adlewyrchu sicrwydd y daw buddugoliaeth ddwyfol *yn fuan* dros y gyfundrefn ddrwg bresennol? (Iago 2:17)

'Ydych chi'n caniatáu i bryderon bywyd neu'r awydd am eiddo materol achosi i chi golli golwg ar y fuddugoliaeth sydd ar ddod, a'r byd newydd? (Mth 13:7, 22)

Mae prinder bwyd, diweithdra, costau byw yn codi, yn broblemau sy'n poeni llawer ar bobl

'Dydym ni ddim wedi'n diogelu rhag y pryderon hyn, ond fe ddylem adlewyrchu hyder yn addewidion sicr Duw i ddarparu ar gyfer ei bobl (Mth 6:25-34; Heb 13:5, 6; w78 11/15 18-20; w89 12/15 19-20; w88 2/15 11-12)

Rhaid inni hefyd ofalu nad yw meddylfryd y byd yn dylanwadu arnom i feddwl fod rhai moethus bethau yn wir anghenion gan achosi inni fyw yn uwch na'n stad (*re* 73; w84 5/15 8-11; g88 4/22 4-6)

Gall gor-bryder ynglŷn â phethau materol achosi i'n golwg fynd yn niwlog ynglŷn â phethau gwirioneddol bwysig—cael byw yn weision cymeradwy Jehofah (1Tim 6:17-19)

Pan yw'n perthynas â Duw yn bwysicaf, fe wnawn bob ymdrech i'w chryfhau hi

Mae Jehofah yn siarad wrthym drwy ei Air, gan ddatgelu ynddo ei bersonoliaeth, ei ffyrdd, a'i ymwneud

'Ydym ni'n awyddus i wybod yr hyn sydd ganddo i'w ddweud, i roi mwy na'r sylw arferol i'w ddywediadau?

'Ydym ni o ddifri'n ymroi i astudiaeth bersonol o'r Beibl a chyhoeddiadau a all ein helpu i'w ddeall? (Diar 2:3-5)

'Fyddwn ni'n 'dal ar ein cyfle' i wneud hynny? (Eff 5:16)

Yn y Beibl, mae Duw yn egluro'i ofynion ar gyfer y rhai hynny fydd yn derbyn ei gymeradwyaeth

'Fyddwn ni rywsut yn cymryd yn ganiataol mai beth bynnag y byddwn yn digwydd ei wneud yw'r cyfan mae Duw yn ei ofyn?

Ag awydd didwyll i harmoneiddio'n bywydau'n llwyr ag ewyllys Duw, 'fyddwn ni'n ddiwyd barhau i archwilio'i Air a'i gymhwyso i ni ein hunain? (Eff 5:10, 17; Iago 1:22-25)

Ai oedi, gyda'r agwedd nad yw o bwys, 'wnawn ni, neu ag ymwybyddiaeth frwd o agosrwydd yr amser i ddwyfol weithredu barn, 'ydym ni'n rhoi lle amlwg i ewyllys Duw yn ein bywydau 'nawr'? (2Pedr 3:11, 12)

## **PARHEWCH I ADEILADU AC AMLYGU'CH HYDER MEWN BUDDUGOLIAETH DDWYFOL (6 mun.)**

Gwnewch benderfyniadau a thywyswch eich bywyd gyda buddugoliaeth ddwyfol mewn golwg

Mae gofyn inni oll fod yn ddisgybledig (Tit 1:7, 8; 2:2-6)

Gyda hunanddisgyblaeth a hyder ym muddugoliaeth Duw, yn fuddugoliaethus fe allem ni oroesi'r diwedd sydd ar ddod

Yn y cyfamser, mae angen i ni fod yn brysur yn helpu eraill i ddeall gwirionedd Duw yn gywir fel y gallant fod ymhlith y rheiny sy'n derbyn bendithion buddugoliaeth ddwyfol

Hyd yn oed os daw chwyldro, tyndra, a phroblemau, ni chollwn afael ar ein disgyblaeth

Fe fyddwn fel Habacuc; effeithiwyd arno gan adroddiad graffig am Dduw yn nydd y frwydr ond 'roedd e'n benderfynol o lawenyachu yn Jehofah (Hab 3:16-18)

Gadewch i ninnau wneud penderfyniad tebyg

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)